## Croeshoelio'r Crist

Llawn yw y temlau gwychion,
Uchel yw'r canu pêr,
A moliant y ddaear yn dringo fyth
I gylchoedd y lloer a'r sêr;
Penlinia'r miloedd yn daclus
Wrth gofio yr ingoedd trist;
Ond tery gofyniad ar glustiau'r dorf, –
'Pwy sy'n croeshoelio'r Crist?'

Ganrifoedd yn ôl bu'r hoelion
Yn rhydu'n Ei ddwylaw pur;
Y dwylaw fendithiodd y plentyn bach,
Y dwylaw fu'n symud cur;
Mae'r dur yn Ei ddwylaw eto,
A'r bicell mewn dwyfron drist;
A nes na Chaersalem yw'r cwestiwn prudd, –
'Pwy sy'n croeshoelio'r Crist?'

Mae muriau Caersalem yn ddarnau,
A gwychter Rhufain yn llwch;
Ar enwau'r llofruddion mae dirmyg byd
Heddyw yn gorwedd yn drwch;
Ond clywaf riddfannau'r Iesu,
Gwelaf Ei ruddiau trist;
Holi wna llais yn nhemlau'r byd, –
'Pwy sy'n croeshoelio'r Crist?'

Mae Pilat a Herod yn farw,
Caiaphas – yntau mewn bedd;
Judas Iscariot yn crwydro fyth
Ar fryniau o iâ yn ddi-hedd;
Ond clywaf yr hoelion yn rhwygo
Eu ffordd trwy y dwylaw trist;
A'r llais yn gofyn yn nhemlau'r byd, –
'Pwy sy'n croeshoelio'r Crist?'

Gwisgir y Crist mewn sidanau,
Cenir Ei glod yn gain;
Coron o foliant sydd ar Ei ben,
Nid coron o bigog ddrain;
Molir Ei waith a'i fywyd,
Clodforir Ei fywyd trist;
Ond yn y clodfori mae dwylaw'r saint
Eto'n croeshoelio'r Crist.

Ei ganmol a'i ladd wneir heddyw;
Ei foli a'i hoelio'r un pryd;
Dweud mai Efe yw brenin y nef,
A'i yrru allan o'r byd;
Canu Ei glod yn y temlau,
A phoeni Ei enaid trist;
Cusanu gwefusau dihalog y Gŵr, –
Fel hyn y croeshoelir y Crist.

Milwriaeth ac Offeiriadaeth
Fu'n llunio yr hoelion a'r groes;
Hwynt-hwy sydd eto yn lladd y Crist
Ar fryniau gwaedlyd ein hoes;
Mae Mab y Dyn yn Ei ddagrau,
Mae Mab y Dyn yn Ei waed;
Mae Mab y Dyn ar faes y drin
Yn cael Ei sathru dan draed.

Mae'r Groglith yn cofio'r marw,
Yn cofio'r erlid a'r gwawd;
Mae'r Groglith heddyw yn cael ei roi
I fathru cymydog a brawd;
Chwythu cartrefi i'r nefoedd,
Darnio bywydau drud,
Mwy gweddus na chanu am gariad Duw
F'ai gwneud yr alanas yn fud.

Milwriaeth ac Offeiriadaeth
Sydd eto yn lladd y Crist;
Galluoedd y fagddu sy'n cerdded y wlad
I wneuthur y ddaear yn drist;
Melltithir meysydd a moroedd,
Rhuddir y byd gan y mellt;
A gwelir eto ar faes y gad
Waed Mab y Dyn ar y gwellt.

Cofio am frad a llofruddiaeth,
Tosturio wrth fradwyr Crist,
A brad ein hunain yn llawer mwy
Ar filoedd o ddynion trist;
Na sonier am Groes a Chariad,
Nes gorffen â'r gwaedlyd gledd;
Wrth byrth y cyfandir yn curo'r drws
Heddyw mae Tywysog Hedd.

***T. E. Nicholas***